# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn lansio strategaeth bum mlynedd newydd

Heddiw mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer gwella bwyd dros y pum mlynedd nesaf ac wedi ailymrwymo i'w chenhadaeth, sef bwyd y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'r strategaeth bum mlynedd yn adlewyrchu  cyfrifoldebau pellach yr ASB nawr bod y Deyrnas Unedig (DU) wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac mae'n ystyried y pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd am iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Meddai'r **Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB**:

> "Dau ddegawd ers ei sefydlu, mae'r ASB wedi datblygu enw da am sicrhau bod bwyd yn ddiogel. Mae'n rhaid i hyn barhau. Nawr yw'r amser iawn hefyd i'r ASB gyfrannu at ymdrechion ehangach y llywodraeth i fynd i'r afael â chlefydau sy'n gysylltiedig â deiet a newid yn yr hinsawdd, gan gadw bwyd yn fforddiadwy ar yr un pryd. Mae ein strategaeth bum mlynedd yn arwydd o'n bwriad i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill yn y system fwyd i sicrhau bwyd iachusach a mwy cynaliadwy. Trwy hyn oll byddwn yn parhau i gynnal buddiannau defnyddwyr fel y gallwn i gyd fwynhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo."

Meddai **Emily Miles, Prif Weithredwr yr ASB**:

> "Mae ymadael â'r UE wedi newid rôl yr ASB. Rydym ni wedi ymgymryd â swyddogaethau newydd, fel cymeradwyo mathau newydd o fwyd sy'n mynd ar werth yma a gosod rheolau ar gyfer gwirio bwyd wedi'i fewnforio. Heddiw felly mae'r ASB yn chwarae rhan bwysicach nag erioed wrth gefnogi llywodraethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar faterion sy'n ymwneud â bwyd. Mae'r strategaeth yn ein hymrwymo i roi buddiannau defnyddwyr wrth wraidd ein gwaith fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, yn ogystal â bod yn iachusach ac yn fwy cynaliadwy."

Mae'r strategaeth newydd yn nodi sut y bydd yr ASB yn parhau i arwain y ffordd o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd dros y pum mlynedd nesaf, fel y gall defnyddwyr fod yn hyderus bod y bwyd y maent yn ei brynu yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae hefyd yn arwydd o barodrwydd yr ASB i gefnogi llywodraethau i wella iechyd y genedl ac i ofalu am y blaned.